***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 426

# Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 5 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

**2.** Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

**Diwygio Gorchymyn cynharach**

**3.** Yn y cofnod sy'n ymwneud â'r Dunsley Yorkshire Stove yn yr Atodlen i Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) 1999(**1**)—

(a) yn y golofn o dan y pennawd "Class of fireplace", ar ôl "Dunsley Yorkshire Stove" rhodder "and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Boiler"; a

(b) yn y golofn o dan y pennawd "Conditions", ar ôl "bearing the reference A/22160" rhodder ", as amended by the manufacturer's instructions dated 4 October 2004 bearing the reference D13 with regard to the Stove and Multifuel Stove and the manufacturer's instructions dated December 2004 bearing the reference GHD/DUN4B/1 with regard to the Multifuel Stove and Boiler".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*John Marek*
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

1 Mawrth 2005

(**1**) O.S. 1999/1515.
(**2**) 1998 p.38.